**Taflen Gofnodi Sgrinio Asesiad Effaith Iechyd**

**Dyddiad:** Rhagfyr 2022

**Cynhaliwyd gan:** Christine Rudgley, Jane Trowman a Meinir Owen

**Teitl y rhaglen:** Cartref Gofal Preswyl a Nyrsio Newydd ym Mhenyberth ar safle Penrhos

**Disgrifiad (yn cynnwys nodau ac amcanion)**

Gorchwyl y Prosiect / Rhaglen yw:

Datblygu (fel partneriaeth sector cyhoeddus) llety gofal preswyl a nyrsio sy'n barhaol, modern ac yn bwrpasol ym Mhenyberth ar safle Penrhos, Pwllheli.

Mae amcanion y buddsoddiad fel a ganlyn:

- Cefnogi ail gydbwyso'r farchnad gofal preswyl a nyrsio (yn ardal Gwynedd) wrth gynyddu darpariaeth y sector cyhoeddus / nid-er-elw sy'n ymdrechu i ddarparu canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bawb.
- Cefnogi darparu gofal yn nes at adref wrth wella hygyrchedd gofal preswyl a nyrsio, gan sicrhau y darperir gwasanaeth drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.
- Cefnogi cynaladwyedd darpariaeth gofal preswyl a nyrsio leol ar ffurf partneriaeth gydweithiol fydd yn integreiddio â'r amrediad ehangach o ofal a ddarperir o safle Penrhos.
- Datblygu model gweithlu arloesol fydd yn cefnogi'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yn yr hirdymor gyda'r posibilrwydd o'i ddefnyddio mewn ardaloedd eraill yng ngogledd Cymru a chreu cyfleoedd hyfforddi drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.
- Sicrhau llety sydd wedi'i ddylunio'n benodol i ddiwallu anghenion gofal unigolion nawr ac i'r dyfodol.
- Darparu gwerth am arian wrth wneud defnydd effeithlon o adnoddau a darparu llety sy'n sensitif yn amgylcheddol ac yn garbon niwtral.

Mae'r Asesiad Effaith yn cefnogi'r broses, wrth ystyried yr effeithiau posib ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

**Natur y dystiolaeth i'w hystyried / i'w defnyddio (yn cynnwys data gwaelodlin, ymchwil technegol ac ansoddol, gwybodaeth arbenigol a chymunedol)**

- Asesiad Anghenion Poblogaeth Gwynedd 2022 - gydag ystyriaeth benodol i ofal nyrsio, gofal preswyl a gofal dementia / iechyd meddwl
- Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Gogledd Cymru (drafft 2022)
- Comisiynu Cartrefi Gofal ar gyfer Bobl Hŷn (Adroddiad Archwilio Cymru)
- Tueddiadau / data gweithgarwch sy'n ymwneud ag Oedi wrth Drosglwyddo Gofal / Ffit yn Feddygol i Afael a data Derbyniadau Brys (ardal Dwyfor)
- Darpariaeth bresennol cartrefi gofal (preswyl a nyrsio) yn ardal Llŷn ac Eifionydd

- Data'r Iaith Gymraeg

1. **Prif grwpiau poblogaeth a effeithir gan y rhaglen, polisi neu brosiect.**

Gan ddefnyddio'r rhestr o grwpiau sy'n fregus a than anfantais sydd wedi'i hamgáu, aseswch pa grwpiau yn y boblogaeth gyffredinol fydd yn cael eu heffeithio o bosib gan y bwriad

Dylai'r datblygiad hwn ddwyn buddion cadarnhaol, sylweddol i'r **grŵp poblogaeth hŷn** sydd ag **anghenion gofal nyrsio a phreswyl, yn cynnwys pobl hŷn â dementia** . Ni ddylai'r datblygiad hwn - sy'n cymryd lle Cartref Pwylaidd Penrhos a oedd ar y safle hwn tan 2019 - arwain at unrhyw anfantais. Bydd hefyd yn dwyn buddion cadarnhaol i'r **boblogaeth oedolion yn gyffredinol** fydd hefyd yn gymwys i dderbyn gofal yn y cartref gofal (dros 50 oed) a bydd amrediad o gyfleoedd cyflogaeth ar gael yn sgil y datblygiad.

Bydd y cartref gofal arfaethedig mewn ardal wledig ym Mhen Llŷn ac o'r herwydd bydd y datblygiad yn cael effaith gadarnhaol ar bobl **sy'n byw mewn lleoliad allweddol - cartref gofal, yn ogystal â'r sawl sy'n byw mewn ardaloedd sydd â dangosyddion economaidd a/neu iechyd gwael, pobl sy'n byw mewn ardaloedd ynysig / gor-boblog a phobl nad ydynt yn cael mynediad i wasanaethau na chyfleusterau**.

Bydd y cartref gofal estynedig, newydd arfaethedig yn gwella mynediad i ofal preswyl a nyrsio yn lleol, sy'n atal yr angen i unigolion a theuluoedd deithio pellteroedd hir a sicrhau darparu mwy o ofal yn nes at eu cartref. Bydd hyn hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar **bobl hŷn a'u teuluoedd ar incwm isel**, gan y bydd costau teithio yn is.

Bydd cyfleusterau'r cartref gofal newydd yn darparu gwasanaethau a gofal i bobl yn seiliedig ar angen sy'n cynnwys **pobl ag anableddau/anawsterau corfforol neu ddysgu.** Bydd yna bwyslais parhaus ar ddarparu gofal i bobl yn yr iaith Gymraeg (os mai dyma eu dewis iaith) a **chynnal treftadaeth ddiwylliannol Bwylaidd a Chymraeg ar y safle.**

**Grwpiau bregus**

***Grwpiau sy'n gysylltiedig ag oedran***

- Plant a Phobl Ifanc
- Blynyddoedd cynnar yn cynnwys beichiogrwydd a blwyddyn gyntaf eu bywyd
- Poblogaeth oedolion gyffredinol
- Pobl Hŷn

***Grwpiau sy'n gysylltiedig ag incwm***

- Pobl ar incwm isel
- Economaidd anweithredol
- Di-waith/heb waith
- Pobl sy'n methu gweithio oherwydd salwch

***Grwpiau sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall***

- Pobl ag anableddau/anawsterau corfforol neu ddysgu.
- Teithwyr
- Teuluoedd rhiant sengl

- Bydd pobl sy’n lesbiaid, hoyw a thrawsryweddol
- Pobl Ddu a grwpiau lleiafrifoedd ethnig
- Grwpiau Crefyddol
- Pobl ddigartref
- Grwpiau iaith/diwylliant
- Grwpiau ffoaduriaid
- Teuluoedd un rhiant
- Gofalwyr
- Cyn-droseddwyr
- Plant mewn Gofal

***Grwpiau daearyddol***
- Pobl sy’n byw mewn ardaloedd sydd â dangosyddion economaidd a/neu iechyd gwael
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd ynysig/gor-boblog
- Pobl sy'n methu â chael mynediad i wasanaethau a chyfleusterau
- Pobl mewn lleoliadau allweddol e.e. gweithleoedd, ysbytai, ysgolion, cartrefi gofal, carchardai

2. **Gan ddefnyddio'r rhestr wirio Penderfynyddion Iechyd a Lles isod, ystyriwch:**
- sut (ym mha ffordd un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol neu'n anfwriadol)
- i ba raddau (effaith sylweddol/ cymedrol / minimal)

Mae'n bosib y bydd y grwpiau hyn yn y boblogaeth ac yn y boblogaeth gyffredinol ei hun yn cael eu heffeithio gan y bwriad neu y bydd gan y bwriad oblygiadau arnynt - a chrynhowch hynny ar gyfer pob adran o'r daflen sgrinio isod.

Gellir rhestru unrhyw gyfleoedd a gollwyd i wella'r bwriad dan y golofn gadarnhaol (+). Gellir rhestru unrhyw effeithiau neu ganlyniadau anfwriadol ar iechyd a lles dan y golofn negyddol (-). Os nad oes unrhyw effeithiau tebygol neu os ydynt yn finimal iawn yna ewch i'r adran nesaf.

Gofynnwch y cwestiwn: Sut mae'r bwriad hwn yn effeithio ar y penderfynyddion, er enghraifft, gweithgarwch corfforol neu ddiet (yn yr adran Ffordd o Fyw), yn gadarnhaol neu'n negyddol? Neu ddim o gwbl?

**Penderfynyddion Iechyd**

| **Ffyrdd o fyw** | |
|---|---|
| **Effeithiau / Cyfleoedd cadarnhaol** | **Effeithiau Negyddol / Anfwriadol** |
| ▪ Bydd dyluniad cyfleusterau'r cartref gofal yn addas i'w bwrpas a bydd yn cynnwys gofod tu allan i annog preswylwyr a staff i gerdded a symud, yn ogystal â llwybrau cerdded y tu mewn i'r adeilad.<br>▪ Darperir ar gyfer holl anghenion diet trigolion i sicrhau diet cytbwys<br>▪ Bydd yr amgylchedd yn cynnwys gofodau i gynnal gweithgareddau a chyfleodd hamddena i hyrwyddo rhyngweithio a chreadigrwydd i wella llesiant | ▪ Dim |

| DYLANWADAU CYMDEITHASOL A CHYMUNEDOL AR IECHYD | |
|---|---|
| **Effeithiau / Cyfleoedd cadarnhaol** | **Effeithiau Negyddol / Anfwriadol** |
| ▪ Bydd y cartref gofal yn galluogi gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gydweithio y tu mewn i'w cyfleuster ac yn y safle ehangach. Bydd y Tîm Adnoddau Cymunedol wedi'i leoli ar y safle hefyd fydd yn hyrwyddo gwaith integredig i gwella gofal parhaus i ddefnyddwyr gwasanaeth, gan alluogi pob gweithiwr proffesiynol yn y maes gofal i gael mynediad hawdd i'r amrediad cyfan o ofal a ddarperir ar y safle a chysylltu â gwasanaethau cymunedol a thrydydd sector eraill, fel sy'n briodol.<br>▪ Ymateb cynt gan weithwyr proffesiynol Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n gweithio ar y safle i anghenion gofal newidiol pobl a dylai hyn wella parhad y gofal.<br>▪ Cyfleoedd i gynnwys y gymuned leol mewn grwpiau lleol a'r gymuned ehangach yn y cyfleuster cartref gofal - er enghraifft hyrwyddo cynlluniau rhyng-genedliadol gydag ysgolion lleol.<br>▪ Cyfleoedd i grwpiau trydydd sector ddefnyddio gofod a chefnogi'r cartref gofal.<br>▪ Cyfleoedd i dynnu sylw at weithgareddau lleol a galluogi pobl i chwilio am syniadau'n defnyddio Dewis. | |
| **Llesiant Meddyliol** | |
| **Effeithiau / Cyfleoedd cadarnhaol** | **Effeithiau Negyddol / Anfwriadol** |
| • Bydd ymestyn llety'r cartref gofal yn gwella mynediad i ofal arbenigol i bobl â dementia ac anghenion iechyd meddwl<br>• Bydd cyd-leoli'r Tîm Adnoddau Cymunedol ar y safle - yn cynnwys aelodau'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol / gwasanaethau yn cyflwyno mwy o gyfleoedd i gael mynediad i gefnogaeth ar sail 'siop un stop'<br>• Bydd lleoliad estynedig, heddychlon a naturiol safle Penrhos yn ogystal â mynediad penodol i drigolion y Cartref Gofal i'r tu allan yn darparu amgylchedd therapiwtig a synhwyraidd i'r sawl ag anghenion iechyd meddwl a gwasanaethau llesiant cyffredinol.<br>• Bydd modd hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth fydd ar gal ar gyfer y pum ffordd i les.<br>• Fel cyfleuster newydd sydd wedi'i dylunio'n dda, | • Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn amcangyfrif nad yw 75% o'r bobl gyda phroblemau iechyd meddwl yn cael mynediad i'r driniaeth sydd ei hangen arnynt[1] |

[1] **Transforming Community Conflict, Adroddiad Mediation Hertfordshire, 2021**

| | |
|---|---|
| bydd y cartref gofal yn meithrin balchder a phositifiaeth fydd yn helpu i wneud y mwyaf o'r deilliannau.<br>• Effaith gadarnhaol ar staff trwy arferion gweithio newydd | |
| **Amodau byw ac amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd** | |
| **Effeithiau / Cyfleoedd cadarnhaol** | **Effeithiau Negyddol / Anfwriadol** |
| ▪ Cyfrannu at adfywiad yr ardal yn gyffredinol.<br>▪ Bydd y cartref gofal newydd yn bodloni rheoliadau adeiladu, yn cynnwys safonau amgylcheddol a chynaliadwyedd, effeithlonrwydd ynni a thargedau datgarboneiddio.<br>▪ Cyfleusterau hygyrch, sy'n hwyluso mynediad i grwpiau bregus<br>▪ Mae canolbwyntio mwy ar atal yn cefnogi cynaladwyedd darparu gwasanaeth yn sgil rhagweld cynnydd mewn galw.<br>▪ Bydd yr arwyddion yn ddwyieithog a bydd yr amgylchedd yn ddementia gyfeillgar ac wedi'i ddylunio i ystyried nam gweledol, yn ogystal â dolenni clyw a chyfleusterau toiledau hygyrch, newid babi<br>▪ Anelu i fodloni egwyddorion datblygu cynaliadwy o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br>▪ Cyfleoedd i gefnogi teithio llesol a sicrhau dewisiadau cludant cyhoeddus dibynadwy.<br>▪ Yn sgil Covid-19, gwersi wedi'u dysgu ynghylch rheoli haint a lleihau trosglwyddiad h.y. awyru - y dechnoleg ddiweddaraf wedi'i chynnwys | ▪ Gallai fod cynnydd yng nghost teithio, cerdded neu yrru neu amser teithio i rai pobl.<br>▪ Costau teithio i ofalwyr/materion. |
| **Amgylchiadau Economaidd yn effeithio ar Iechyd** | |
| **Effeithiau / Cyfleoedd cadarnhaol** | **Effeithiau Negyddol / Anfwriadol** |
| ▪ Disgwylir i'r datblygiad gyfrannu'n gadarnhaol i'r economi leol (er enghraifft o ran cyfleoedd adeiladu a chyflogaeth) a thuag at adfywio.<br>▪ Bydd y cam datblygu yn creu cyfleoedd cyflogaeth yn yr ardal leol. | ▪ Gall rhai o'r cyfleoedd cyflogaeth ac effeithiau iechyd fod yn rhai byrdymor neu dros dro neu heb eu cynnal.<br>▪ Y sawl sydd heb fynediad i'w cludiant eu hunain fydd o bosib dan fwyaf o anfantais. |
| **Mynediad ac Ansawdd Gwasanaethau** | |
| **Effeithiau / Cyfleoedd cadarnhaol** | **Effeithiau Negyddol / Anfwriadol** |
| ▪ Mae cydleoli gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol o fewn y cartref gofal a chael y TAC ar y safle yn hyrwyddo dull integredig o ran darparu gofal ansawdd uchel.<br>▪ Amrediad cyflawn o ddarpariaeth gofal ar gael ar y safle yn lleihau / atal yr angen i deithio ar gyfer y rhai hynny sy'n byw'n lleol.<br>▪ Disgwylir i'r cartref gofal fod yn agos i gludiant cyhoeddus a chyda lefel o gyfleoedd parcio, yn | ▪ Efallai y bydd yn rhaid i rai pobl sy'n cael mynediad i gyfleusterau'r cartref gofal deithio ymhellach, gall hyn fod yn fwy heriol i bobl sy'n dibynnu ar eraill i'w cynorthwyo a / neu ddibynnu ar gludiant cyhoeddus ac fe all hyn gael effaith ariannol. |

| | |
|---|---|
| cynnwys ar gyfer y rhai gydag anghenion mynediad anabledd. | |
| **Ffactorau Macro-economaidd, Amgylcheddol a Chynaladwyedd** | |
| **Effeithiau / Cyfleoedd cadarnhaol** | **Effeithiau Negyddol / Anfwriadol** |
| ▪ Mae'n cyfrannu at dargedau amgylcheddol a chynaladwyedd, wedi'i alinio â gofynion rheoleiddio Cymru a'r agenda datgarboneiddio<br>▪ Adfywiad yr ardal yn yr hirdymor | ▪ Angen ystyried effaith amgylcheddol cael un neu fwy o adeiladau.<br>▪ Trafnidiaeth a Mynediad |

**<u>Crynodeb o'r Effeithiau Iechyd Posib a Nodwyd</u>**

Yn yr un modd ag elfennau eraill y gwaith cynllunio, ymgysylltu a dyluniad disgwyliedig y datblygiad gofal iechyd; bydd yr Asesiad Effaith Iechyd ansoddol hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y bwrdd prosiect lleol ac unrhyw gorff dilynol ar ôl i'r datblygiad gael ei gwblhau. Bydd yn ffurfio rhan ffurfiol o gynllun gwireddu buddion yr hwb gofal iechyd.

**Effeithiau positif**

Y posibilrwydd o:

- Wella mynediad i ofal preswyl a nyrsio, yn cynnwys i'r sawl sydd â dementia
- Llety addas i bwrpas o ansawdd uchel ar gyfer bobl gydag anghenion gofal hirdymor sy'n hygyrch ac yn ddementia gyfeillgar
- Cadw gofal yn Agos i Adref
- Dylunio da (tu mewn a thu allan i'r cartref gofal) sy'n hyrwyddo llesiant - gwneud y mwyaf o fynediad i'r tu allan / natur a'r lleoliad prydferth, hyrwyddo cerdded, symudedd a sicrhau y darperir diet cytbwys i drigolion
- Cydleoli gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol o fewn y cartref gofal ac ar draws safle Penrhos yn arwain at well deilliannau gofal a gofal o ansawdd uchel.
- Mae'n cyfrannu at dargedau amgylcheddol a chynaladwyedd, wedi'i alinio â gofynion rheoleiddio Cymru ac ymrwymiadau datgarboneiddio
- Cyfrannu’n bositif at yr economi leol
- Ychwanegu at wydnwch y gymuned a'r boblogaeth.

**Effeithiau Negyddol / Canlyniadau Anfwriadol**

- Gall lleoliad y cartref gofal fod ymhellach i ffwrdd i rai pobl - yn dibynnu ar argaeledd lleoliadau i'r sawl sy'n byw'n bellach i ffwrdd (de Gwynedd)
- Her o ran cludiant i rai yn y gymuned
- Er mwyn cynnal lefelau staffio digonol (gyda'r sgiliau gofynnol) yn y cartref gofal dros amser, bydd angen datblygu model staffio arloesol.

**Effeithiau ar grwpiau Bregus**

- Effaith bositif yn gyffredinol ar yr holl grwpiau bregus a nodir uchod trwy well mynediad i ddarpariaeth gofal, mewn cyfleusterau newydd sydd wedi'u dylunio'n dda yn ogystal â chyfleoedd cyflogaeth yn lleol.
- Effaith gadarnhaol sylweddol yn arbennig ar bobl hŷn (ac oedolion) gydag anghenion gofal preswyl, nyrsio a dementia hirdymor yn cael mynediad i'r gofal hwn yn lleol a gwell ansawdd gofal wedi'i ddarparu mewn cyfleusterau ac amgylchedd sy'n addas i'r pwrpas a'r sawl â dementia i gael

mynediad i ofal

- Y cynllun ymgysylltu i gael ei deilwra i ddefnyddio amrediad o declynnau a mecanweithiau i gwrdd â grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd.

**Argymhellion:**

a. **A yw'r effeithiau a nodir uchod yn ddigon i gyfiawnhau asesiad effaith iechyd mwy cynhwysfawr?**

AEI i esblygu wedi'i alinio a chanfyddiadau'r ymgysylltu a chamau nesaf y prosiect a mireinio opsiynau.

b. **A oes angen camau eraill o ganlyniad i'r broses AEI hon? Os oes, amlinellwch hwy (rhestrwch argymhellion a/neu fesurau lleddfu/gwella fan hyn)**

**Camau Gweithredu a Argymhellir:**

1. Cam nesaf ymgysylltu ar gyfer y prosiect ehangach - yn ymwneud â'r cam cartref gofal - yn y cam Achos Busnes Amlinellol i gynnwys grwpiau penodol ac anodd eu cyrraedd a chanolbwyntio ar y sawl wnaeth ddim cymryd yn rhan yn yr ymgysylltu yn y cam Achos Amlinellol Strategol.
2. Ymgysylltu â grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd.
3. Ymgysylltu â staff ac ystyried diwylliant a ffyrdd o weithio.

c. **Os oes angen AEI arall, amlinellwch y camau nesaf (E.e. Dyddiad ac Amser y cyfarfod sgopio)**

**A ydych wedi cynnal asesiadau effaith eraill, neu yn bwriadu gwneud hynny? h.y.: Asesiad Effaith Cydraddoldeb, Asesiad Effaith Amgylcheddol. Neu a fydd hyn yn ffurfio rhan o un?**

- Unrhyw ofynion ac amseroedd ar gyfer unrhyw asesiadau effaith posib eraill ar gyfer y cam Achos Busnes Amlinellol ymlaen, os o gwbl - i gael eu cytuno.
- Sgrinio AEC: wedi'i gwblhau yn ystod yr Achos Amlinellol Strategol
- Asesiad Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol: cytunwyd nad yw'n briodol gan fod y penderfyniad eisoes wedi'i wneud yn 2019 (LIC) i gau'r cartref a chael un yn ei le trwy ddarpariaeth partneriaeth sector cyhoeddus
- Asesiad effaith iechyd Pen Desg Cyflym: yn cael e i ddatblygu'n barod ar gyfer Achos Busnes Amlinellol a disgwylir mewnbwn gan grŵp bychan yn y lle cyntaf
- Sgrinio Asesiad Effaith Diogelu Data: yn cael ei ddatblygu'n barod ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol ac yn aros i gael ei adolygu/monitro ymhellach